# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad/Mis cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2505A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd oleuo astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Dim ond os caiff pwysau ar wasanaethau eu rheoli'n effeithiol y bydd cynaliadwyedd ariannol parhaus y Cyngor yn cael ei sicrhau.


Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham 4

Argymhellion 5

Dim ond os caiff pwysau ar wasanaethau eu rheoli'n effeithiol y bydd cynaliadwyedd ariannol parhaus y Cyngor yn cael ei sicrhau 6

Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru 6

Mae gan y Cyngor CATC sy'n cwmpasu'r cyfnod 2021-2024; mae gofyn mireinio rhai tybiaethau ymhellach ac nid yw'r Cyngor yn ei ddiweddaru'n rheolaidd pan ddaw gwybodaeth i fod ar gael 7

Gallai'r Cyngor fod yn fregus pe bai cronfeydd wrth gefn yn lleihau i wneud iawn am bwysau annisgwyl 9

Mae gan y Cyngor hanes o fantoli ei gyllideb refeniw, ond mae hyn wedi digwydd weithiau o ganlyniad i incwm ychwanegol neu addasiad technegol 11

Mae gan y Cyngor hanes o adnabod a chyflawni arbedion er nad yw hynny wastad wedi bod fel a gynlluniwyd 14

Mae'r Cyngor wedi cynnal cymhareb hylifedd o lai nag 1 dros y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 15

# Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham

1 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn gan bod cynaliadwyedd ariannol yn dal i fod yn risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol o ran adnoddau gostyngol ar gyfer llywodraeth leol ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Fe gynhaliom ni brosiect tebyg yn 2019-20, cyn pandemig COVID-19.

2 Cynhaliwyd ein hasesiad yn 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad sylfaenol o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau lleol. Roedd Cam 1 yn seiliedig ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 yn 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 fe gyhoeddom ni adroddiad cryno cenedlaethol – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**[1]. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond bod cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.

3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd yr adroddiad cryno'n nodi sefyllfa sylfaenol lefel uchel, gan gynnwys sefyllfa cynghorau lleol o ran eu cronfeydd wrth gefn cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ddisgwylid wrth edrych tua'r dyfodol.

4 Mae'r adroddiad hwn yn benllanw ar gam 2 ein gwaith i asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru.

5 Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2021.

[1] Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| **Cronfeydd wrth Gefn** | |
| A1 | Adolygu lefel cronfeydd wrth gefn y Cyngor yng nghyd-destun risgiau posibl a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal ar lefel sy'n cefnogi ei gynaliadwyedd ariannol parhaus. |
| **Rheoli gwariant** | |
| A2 | Sicrhau bod cyllidebau a gweithgarwch gweithredol yn cael eu halinio'n well i gynnal cynaliadwyedd ariannol parhaus. |
| **Arbedion** | |
| A3 | Adolygu pa mor effeithiol y cyflawnwyd arbedion wedi'u cynllunio yn 2020-21 a sicrhau bod trefniadau cadarn yn eu lle i adnabod, cynllunio a chyflawni arbedion yn y dyfodol. |

# Dim ond os caiff pwysau ar wasanaethau eu rheoli'n effeithiol y bydd cynaliadwyedd ariannol parhaus y Cyngor yn cael ei sicrhau

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

6 Mae'r adran hon yn nodi'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

7 Canfuom fod y Cyngor wedi hawlio o'r Gronfa Galedi COVID i leddfu effaith ariannol y pandemig.

**Arddangosyn 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21**

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o wariant ychwanegol y Cyngor a'r incwm a gollwyd ganddo yn ystod 2020-21 o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn a liniarwyd gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi ei wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £13.6 miliwn |
| Swm yr incwm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21. | £4.7 miliwn |
| Swm y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19. | £18.3 miliwn |
| Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21, ar ôl ystyried y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. | £0.2 miliwn |

| | |
|---|---|
| Cyllid sefydlog a neilltuedig ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ariannu 'arbedion nas cyflawnwyd' a 'thrawsnewid digidol'. | £2.2 miliwn |

## Mae gan y Cyngor CATC sy'n cwmpasu'r cyfnod 2021-2024; mae gofyn mireinio rhai tybiaethau ymhellach ac nid yw'r Cyngor yn ei ddiweddaru'n rheolaidd pan ddaw gwybodaeth i fod ar gael

### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod lefel debygol y cyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau diweddar a'r pwysau a ddisgwylir o ran cyllid ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig adnabod sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn arbennig sut y bydd yn cwrdd â bylchau a ragamcanir o ran cyllid.

9 Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus ac, yn y cyd-destun hwn, bydd lleddfu'r effaith ar gynghorau nid yn unig yn dibynnu ar y camau gweithredu y maent hwy'n gallu eu cymryd ond hefyd i raddau helaeth ar faint o adnoddau a ddyrennir gan lywodraethau. Rydym yn cydnabod mai un o'r materion allweddol i gynghorau o hyd wrth geisio cynllunio'n ariannol dros y tymor canolig yw'r ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid y byddant yn ei gael gan lywodraeth, a'u ffrydiau incwm hwy eu hunain, megis y dreth gyngor a ffioedd a thaliadau.


10 Canfuom fel a ganlyn:

- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 nad oedd Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) y Cyngor yn nodi sut y byddai'n unioni'r diffyg cronnus rhagamcanol o ymron i £10 miliwn rhwng 2020-21 a 2021-22.
- mae'r Cyngor bellach wedi estyn ei weithgarwch cynllunio ariannol i gwmpasu'r cyfnod o 2021-22 i 2023-24 sy'n amlygu bwlch o ran cyllid o £4.2 miliwn dros y blynyddoedd 2022-23 a 2023-24. Mae **Arddangosyn 3** yn dangos y dadansoddiad o'r bwlch dros oes y CATC.
- roedd CATC y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2021-22 a 2023-24 yn nodi'r risgiau canlynol a allai arwain at yr angen i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn:
  - amodau economaidd, sy'n debygol o arwain at ostyngiadau mewn termau real yn y grant cynnal refeniw ac mewn grantiau penodol;
  - llai o dderbyniadau cyfalaf ac incwm sy'n gysylltiedig â chynllunio;
  - mwy o alw am wasanaethau'n arwain at orwariannau adrannol;
  - incwm is na'r disgwyl;
  - colledion heb eu hyswirio o ddigwyddiadau anodd i'w rhagweld;

    - rhwymedigaethau cyfreithiol heb eu hyswirio;
    - analluu i gyflawni arbedion wedi'u cynllunio;
    - costau o ganlyniad i ailstrwythuro sefydliadol;
    - costau contractau hirdymor; ac
    - atgyweirio asedau neu brynu rhai newydd yn eu lle.
- mae CATC y Cyngor yn rhoi disgrifiad da o bwysau ariannol mewnol ac allanol megis materion ariannu, rhagolygon y boblogaeth, strategaeth cronfeydd wrth gefn y Cyngor a'i strategaeth gyfalaf. Yn y crynodeb ariannol, mae'n tybio y bydd codiadau mewn cyllid o 2% yn y Grant Cynnal Refeniw a 5% o'r Dreth Gyngor. Mae hefyd yn cydnabod ymrwymiadau na ellir eu hosgoi ar gyfer demograffeg, cyllido cyfalaf, ardoll y Gwasanaeth Tân, prydau ysgol am ddim, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, lwfansau'r Aelodau a phensiynau nad ydynt yn rhai athrawon sy'n gyfanswm o £3.2 miliwn dros y cyfnod o 2022-2024. Mae cyfraddau hawlio uwch ar gyfer prydau ysgol am ddim a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cynrychioli newidiadau yn y galw am wasanaethau; nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer mwy o gyllid i ariannu newidiadau demograffig yn cael ei hegluro yn y CATC (am nad oedd gan y Cyngor fynediad at y data perthnasol ar yr adeg honno). Mae codiadau eraill yn seiliedig ar fformiwla gan mwyaf. Gan hynny, mae'r CATC yn darparu rhagolwg sylfaenol o sefyllfa ariannol y Cyngor hyd at 2024 gyda darpariaeth o £0.5 miliwn ar gyfer 'demograffeg' a bwlch o ran cyllid o £4.2 miliwn sy'n awgrymu bod angen mireinio'r CATC ymhellach.

**Arddangosyn 3: mae gan y Cyngor gyfanswm bwlch o ran cyllid a ragamcanir ar gyfer y tair blynedd rhwng 2021-22 a 2023-24 o £4.2 miliwn**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i nodi ar gyfer y tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell: CATC 2021-22 i 2023-24

## Gallai'r Cyngor fod yn fregus pe bai cronfeydd wrth gefn yn lleihau i wneud iawn am bwysau annisgwyl

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

11 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw, sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau'r cronfeydd wrth gefn, yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

12 Canfuom fel a ganlyn:

- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol ar gyfer 2019-20 nad oedd y Cyngor wedi gwneud unrhyw ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau ar y gyllideb refeniw a bod lefel ei gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

- mae **Arddangosyn 4** isod yn dangos bod cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor fel canran o gost net gwasanaethau wedi aros ar oddeutu 12%, er bod hyn wedi gostwng i 11.6% yn 2019-20. Y ganran hon o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy oedd y chweched isaf o'i gymharu â holl gynghorau Cymru.
- dengys y graff yn **Arddangosyn 5** fod cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor fel canran o'i gyllideb refeniw ar y cyfan yn lleihau o un flwyddyn i'r llall a bod ei ganran yn is o lawer na chanrannau rhai cynghorau eraill.
- gyda chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o fwy nag £20 miliwn, mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ariannu llawer o'r risgiau a nodir uchod. Fodd bynnag, yn gynharach yn 2020-21, fe wnaeth y Cyngor ragweld gorwariant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o £8 miliwn; pe bai hyn wedi digwydd go iawn a heb gael ei wrthbwyso gan danwariannau mewn gwasanaethau eraill a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, roedd potensial iddo leihau cronfeydd wrth gefn yn sylweddol.
- nid yw'r gyllideb refeniw 2021-22 yn cynnwys cynigion i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn.

13 Er bod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £26.2 miliwn ar 31 Mawrth 2020, yn ymarferol dim ond at ddibenion penodol y gellid defnyddio rhai o'r rhain. O fewn y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a oedd gan y Cyngor roedd balansau ysgolion o £2 filiwn, cronfa wrth gefn gyfalaf o £2.2 miliwn, cronfa wrth gefn yswiriant o £2.7 miliwn a chronfa wrth gefn offerynnau ariannol o £3.1 miliwn.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | 240.8 | 239.9 | 249.9 | 255.8 |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy mewn £ miliynau [3] | 24.9 | 25.9 | 28.9 | 26.2 |

[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.


[3] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall.
Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o gost net gwasanaethau [4] | 10.3% | 10.8% | 11.6% | 10.2% |
| Safle o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru | 18fed | 18fed | 14eg | 16eg |

Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

**Arddangosyn 5: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.




Ffynhonnell: Datganiadau Ariannol

## Mae gan y Cyngor hanes o fantoli ei gyllideb refeniw, ond mae hyn wedi digwydd weithiau o ganlyniad i incwm ychwanegol neu addasiad technegol

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

14 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau

[4] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

15 Yr hyn a ganfuom

- canfu ein hadroddiad o Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 fod y Cyngor yn rheoli gwariant o fewn ei gyllideb ar y cyfan, ond dros y blynyddoedd diwethaf roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai gwasanaethau wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mawr mewn gwasanaethau eraill ac arian annisgwyl untro. Mae **Arddangosyn 7** yn dangos dadansoddiad pellach o'r amrywiadau yn y gyllideb.
- yn 2018-19 gwelsom amrywiadau mawr, er bod y Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw ar y cyfan o oddeutu £0.2 miliwn. Cafodd gorwariannau sylweddol yng ngwasanaeth yr Amgylchedd a Chynllunio o £0.9 miliwn a'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol o £0.7 miliwn eu gwrthbwyso gan danwariannau yn y gwasanaeth Cyllid o £0.3 miliwn, y Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog o £1.5 miliwn, y gwasanaeth Cyllid a Buddsoddi o £0.3 miliwn ac Ysgolion o £0.2 miliwn. Mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn **Arddangosyn 7**.
- yn 2019-20, nododd y Cyngor danwariant net o £0.3 miliwn. O fewn y ffigwr hwn, gorwariodd y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thechnegol o £0.7 miliwn, gorwariodd y Gwasanaethau Plant o £0.9 miliwn a gorwariodd y Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio o £0.2 miliwn. Cafodd y gorwariannau hyn eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn gwasanaethau amrywiol, gan gynnwys tanwariant o £1.4 miliwn yn y Gwasanaethau Canolog a £0.3 miliwn yn y gyllideb Ysgolion. Mae'r manylion llawn wedi'u cynnwys yn **Arddangosyn 7**.
- yn 2020-21, nododd y Cyngor danwariant net o £9.9 miliwn. O fewn y ffigwr hwn, gorwariodd y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol o £5.6 miliwn, (Cafodd gorwariant y Gwasanaethau Plant o £6.8 miliwn ei wrthbwyso gan danwariant yn y Gwasanaethau Oedolion o £1.3 miliwn). Roedd tanwariannau eraill mwy nodedig yn cynnwys ysgolion - £7.5 miliwn, Gwasanaethau Canolog - £3 miliwn a Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thechnegol - £2.3 miliwn. Mae'r manylion llawn wedi'u cynnwys yn **Arddangosyn 7**.
- dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cael budd o incwm ychwanegol ac addasiadau cyfrifyddu sydd wedi gwrthbwyso gorwariannau gan wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys addasiad cyfrifyddu technegol a chyllid gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhai taliadau o'r Gronfa Galedi COVID.
- mae'r gorwariannu a'r tanwariannau hyn yn dynodi peth anghysondeb rhwng gweithgarwch gweithredol a chyllidebau gwasanaethau, ac mae'r Cyngor yn dal cronfeydd hapddigwyddiadau'n ganolog i gwrdd ag amrywiannau yn ystod y flwyddyn.

**Arddangosyn 6: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net**

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant yng nghyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y pedair blynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yn hyn yn ôl y sefyllfa ym mis Ionawr 2021.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net Wreiddiol £ miliynau [5] | 224.0 | 225.3 | 232.9 | 236.9 |
| Alldro Refeniw Net Gwirioneddol [6] | 223.5 | 224.0 | 232.6 | 236.6 |
| Swm y gwarged/gorwariant ar y cyfan [7] | 0.5 | 1.3 | 0.3 | 0.3 |
| Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net | 0.2% | 0.6% | 0.1% | 0.1% |

Ffynhonnell – Adroddiadau Alldro Refeniw 2018-19, 2019-20 a Phapur Briffio'r Holl Aelodau Ionawr 2021.

**Arddangosyn 7: perfformiad yn erbyn y gyllideb fesul gwasanaeth**

| Gwasanaeth | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Yr Amgylchedd a Thechnegol | | £661k drosodd | £2,278k oddi tanodd |
| Cynllunio a Rheoleiddio | | £185k drosodd | £328k oddi tanodd |
| Yr Amgylchedd a Chynllunio | £877k drosodd | | |
| Tai a'r Economi | £2k oddi tanodd | £41k drosodd | £472k oddi tanodd |
| Gofal Cymdeithasol | £748k drosodd | £900k drosodd | £5,557k drosodd |
| Addysg ac Ymyrryd yn Gynnar | | £107k oddi tanodd | £812k oddi tanodd |
| Addysg | £128k drosodd | | |
| Cyllid a TGCh | | £133k oddi tanodd | £334k oddi tanodd |
| Cyllid | £278k oddi tanodd | | |

[5] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[6] Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

[7] Cyfrifiad Archwilio Cymru.

| Gwasanaeth | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu a Gwasanaethau Cwsmeriaid | | £88k oddi tanodd | £202k oddi tanodd |
| Corfforaethol a gwasanaethau cwsmeriaid | £88k oddi tanodd | | |
| Prif Weithredwr | | £181k oddi tanodd | £204k oddi tanodd |
| Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw | £2k oddi tanodd | £4k oddi tanodd | |
| Gwasanaethau Canolog | £1,477k oddi tanodd | £1,376k oddi tanodd | £3,061k oddi tanodd |
| Incwm a Gwariant | £265k oddi tanodd | £92k drosodd | £248k oddi tanodd |
| Cyllid a Buddsoddi | | | |
| Ysgolion | £191k drosodd | £292k oddi tanodd | £7,542k oddi tanodd |
| **Cyfanswm gor-/ tanwariannau net** | **£168k oddi tanodd** | **£302k oddi tanodd** | **£9924k oddi tanodd** |

## Mae gan y Cyngor hanes o adnabod a chyflawni arbedion er nad yw hynny wastad wedi bod fel a gynlluniwyd

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

16 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny'n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

17 Yr hyn a ganfuom:

- canfu ein hadroddiad ar Gynaliadwyedd Ariannol yn 2019-20 fod gan y Cyngor hanes da o adnabod a chyflawni arbedion ariannol.
- yn 2020-21, adnabu'r Cyngor arbedion a oedd yn gyfanswm o £1.6 miliwn. Fe wnaeth Papur Briffio'r Holl Aelodau ym mis Ionawr 2021 nodi cynnydd o ran cyflawni'r arbedion. Nodwyd fod yr arbediad o £0.5 miliwn mewn gofal cymdeithasol 'Oddi ar y trywydd oherwydd COVID' a bod arbedion mewn TGCh, tai canolfannau gymunedol a gwasanaethau cyfreithiol wedi'u cyflawni'n rhannol yn unig. Roedd yr holl arbedion eraill naill ai wedi'u cyflawni fel a gynlluniwyd, neu roedd colledion incwm wedi'u hariannu gan

grantiau caledi COVID ac roedd targedau arbedion eraill wedi'u disodli gan arbedion eraill megis rheoli swyddi gwag.

- lle nad yw arbedion wedi cael eu cyflawni, mae'r Cyngor yn ystyried bod y rhain wedi cael eu gwrthbwyso gan danwariant adrannol.
- mae defnyddio tanwariannau i wrthbwyso targedau arbedion yn ateb byrdymor ac yn dynodi nad yw penderfyniadau'r Cyngor wedi cael eu rhoi ar waith. Bydd £690,000 o arbedion pellach yn cael eu canfod yn 2021-22; felly bydd angen i reolwyr ddeall pam nad yw arbedion wedi cael eu cyflawni fel a gynlluniwyd, a ellir eu cyflawni mewn blynyddoedd yn y dyfodol a beth yw effaith tanwariannau heb eu cynllunio ar gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi cynnal cymhareb hylifedd o lai nag 1 dros y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20

### Pam fod sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

18 Pam ei bod yn bwysig pwyso a mesur asedau cyfredol o'i gymharu â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd):

- mae'n arwydd o'r modd y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i archwilio pa un a yw sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, mae hyn yn annhebygol o fod yn risg i gynghorau o ystyried eu gallu i gymryd benthyciadau byrdymor. Fodd bynnag, mae hefyd yn gweithredu fel dangosydd sy'n dynodi sut y mae cyngor yn rheoli ei gyllid yn y tymor byr.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau i gwrdd â'u rhwymedigaethau.
- gall fod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthyciadau byrdymor i dalu dyledion.
- dylai cynghorau â chymarebau hylifedd uchel iawn ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

19 Canfuom fel a ganlyn:

- bu gan y Cyngor gymhareb hylifedd is nag un ers 2016-17. Mae'r Cyngor wedi defnyddio benthyciadau byrdymor yn unol â chyngor gan ei Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys i helpu i gynnal cost is am ariannu dyledion.
- mae cymhareb hylifedd y Cyngor wedi bod islaw'r cyfartaledd ar draws holl gynghorau Cymru dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2015-16 a 2019-20 (gweler **Arddangosyn 8**), ond mae ganddo strategaeth rheoli Trysorlys i gyflawni ei rwymedigaethau.
- caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol ac mae aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n craffu arni.

**Arddangosyn 8: cymhareb cyfalaf gweithio rhwng 2015-16 a 2019-20**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau Cyfredol [8] | 38.6 | 33.0 | 44.2 | 53.8 | 57.8 |
| Rhwymedigaethau Cyfredol [9] | 29.8 | 44.4 | 89.8 | 79.7 | 83.8 |
| Cymhareb Cyfalaf Gweithio | 1.3 | 0.7 | 0.5 | 0.7 | 0.7 |

Ffynhonnell – offeryn casglu data a gwblhawyd gan y Cyngor

[8] Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Byrdymor; Asedau a ddelir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Byrdymor; ac Arian Parod a'i gyfwerth.

[9] Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthyciadau Byrdymor; Credydwyr Byrdymor; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.